OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 1706 (Cy.192)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *11 Gorffennaf 2011* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *12 July 2011* |
| *Yn dod i rym - -* | *3 Awst 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 1, 11(2)(d) ac 11(3) o Fesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008(**1**).

### Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2011, a deuant i rym ar 3 Awst 2011.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i wasanaethau a ddarperir fel rhan o'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011(**2**).

### Diwygio'r prif Reoliadau

**2.**—(1) Yn rheoliad 1(2) yn lle "1 Hydref 2011" rhodder "1 Ebrill 2012".

(2) Yn lle rheoliad 52(5) rhodder: "Ni fydd cwynion ynghylch gwasanaethau a ddarparwyd gan gyrff GIG Lloegr, cyrff GIG yr Alban neu gyrff GIG Gogledd Iwerddon, fel y'u diffinnir yn rheoliad 34, cyn 1 Ebrill 2012 yn cael eu hystyried o dan Ran 7 o'r Rheoliadau hyn.".

(**1**) 2008 mccc 1.
(**2**) O.S. 2011/704 (Cy.108).

*Lesley Griffiths*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

11 Gorffennaf 2011

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 ("y prif Reoliadau").

Mae rheoliad 2(1) yn gohirio'r dyddiad y daw Rhan 7 o'r prif Reoliadau i rym, o 1 Hydref 2011 tan 1 Ebrill 2012. Mae Rhan 7 o'r prif Reoliadau yn ymdrin â'r modd y mae iawn i'w ddarparu pan fo Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru neu Fwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru yn ymuno mewn trefniant i ddarparu gwasanaethau iechyd gyda chorff GIG yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

Mae rheoliad 2(2) yn amnewid rheoliad 52(5) newydd yn y prif Reoliadau, i adlewyrchu'r dyddiad newydd y daw Rhan 7 i rym a chymhwyso'r trefniadau iawn trawsffiniol yn y Rhan honno i wasanaethau sydd wedi eu darparu ar neu ar ôl 1 Ebrill 2012.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni thybiwyd bod angen cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o gostau a buddion tebygol cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.